# Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

# Ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-2026

## Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Genedlaethol ddrafft Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2022-2026.

Ni ragwelir y bydd y Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ddrafft yn cael unrhyw effeithiau negyddol penodol ar o ran hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Fel rhan o'r broses ymgynghori, byddwn yn croesawu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r effaith y mae ein cynigion yn debygol o'i chael ar hawliau plant a byddwn yn diweddaru'r asesiad effaith hwn fel y bo'n briodol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i dargedu gweithgarwch ymgysylltu priodol tuag at blant a phobl ifanc. Nid yw’r manylion wedi'u cadarnhau eto, ond efallai y byddant yn cynnwys arolwg ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc a hyrwyddir gan ein sefydliadau partner.

Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys hyrwyddo a chefnogi perthnasoedd iach fel rhan o'r Cod a Chanllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd. Bydd gweithredu hyn yn llwyddiannus yn cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau perthnasoedd boddhaus, iach a diogel drwy gydol eu bywydau. Gan y bydd bechgyn a dynion ifanc sy'n arddangos agweddau neu ymddygiadau o ragfarn neu gasineb tuag at fenywod ar hyn o bryd yn cael cymorth ac yn cael eu hannog i newid eu hymddygiad, credwn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol arnynt.

Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yw'r dangosydd gorau sydd ar gael o nifer yr achosion o gam-drin yn ystod plentyndod, drwy fesur faint o oedolion a gafodd eu cam-drin cyn eu bod yn 16 oed. Yn 2018/19, amcangyfrifodd yr Arolwg fod tua 8.5 miliwn o oedolion rhwng 18 a 74 oed wedi cael eu cam-drin cyn eu bod yn 16 oed. Mae hyn yn cyfateb i 20.7 y cant o'r boblogaeth 18 i 74 oed.

Yn 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei hadroddiad cyntaf i ganolbwyntio ar Gam-drin Plant yng Nghymru a Lloegr gan edrych ar gam-drin rhywiol, cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol ac esgeulustod. Amcangyfrifir bod 3.1 miliwn o oedolion rhwng 18 a 74 oed wedi dioddef cam-drin rhywiol cyn eu bod yn 16 oed – mae hyn yn cynnwys camdriniaeth gan oedolion a gan blant. Roedd tua hanner yr oedolion (52 y cant) a brofodd gamdriniaeth cyn eu bod yn 16 oed hefyd wedi profi cam-drin domestig yn ddiweddarach mewn bywyd, o'i gymharu â 13 y cant o'r rhai nad oeddent wedi cael eu cam-drin cyn eu bod yn 16 oed.

Cyflwynodd Childline 19,847 o sesiynau cwnsela i blant yn y DU lle'r oedd cam-drin yn brif achos pryder yn 2018/19 – cam-drin rhywiol oedd bron i hanner (45 y cant) o'r rhain a dyma'r math mwyaf cyffredin o gamdriniaeth a gafodd ei gwnsela gan Childline yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Ofsted Adolygiad o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau yn Lloegr a oedd yn ymchwilio i nifer yr achosion o aflonyddu rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol ar-lein. Canfu fod camdriniaeth o'r fath wedi'i 'normaleiddio' ar gyfer plant a phobl ifanc. Canfu'r adolygiad nad yw plant yn aml yn gweld y pwynt o herio neu adrodd am yr ymddygiad niweidiol hwn oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn brofiad arferol.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad cryno Cam 1 Ymchwil gyda grwpiau goroeswyr VAWDASV heb gynrychiolaeth ddigonol a oedd yn cynnwys pobl iau. Bydd yr ymchwil yn helpu i greu Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr ar gyfer VAWDASV. Gwnaed awgrymiadau gan ymatebwyr ar gyfer yr hyn y gellid ei wneud i annog cyfranogiad a gwaith ymgysylltu i wella'r gwaith o atal VAWDASV. Caiff yr ymchwil hon ei hadolygu a bydd yn bwydo i mewn i'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft yn ymestyn i holl ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Bydd yr holl fesurau a gynigir ar gyfer atal VAWDASV a chefnogi dioddefwyr/goroeswyr yn berthnasol i blant, yn ogystal â gwasanaethau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabyddir bod plant dan 18 oed hefyd yn cael eu cefnogi gan ddeddfwriaeth bresennol, er enghraifft Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gweithdrefnau presennol y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS).

Mae materion sy'n croes-dorri gyda diogelu. Er nad yw VAWDSV yn dod o dan ddyletswyddau a chanllawiau diogelu statudol, rydym yn bwriadu cynnig bod ein hymateb yn cyd-fynd â chamau i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Mae VAWDASV yn cwmpasu cysyniadau fel camfanteisio rhywiol, anffurfio organau rhywiol menywod a thrais 'anrhydedd' fel y'i gelwir, a allai effeithio ar ferched a menywod ifanc yn benodol.

Cydnabyddir bod profiadau o gam-drin domestig a thrais rhywiol yn brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae tystiolaeth sylweddol o'r risgiau i'r rhai sy'n profi VAWDASV wrth dyfu i fyny a'r ffordd y gall y profiad gyfrannu at ganlyniadau iechyd a chymdeithasol negyddol iddynt pan fyddant yn oedolion.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau a chomisiynwyr ddeall yr effaith ar y plentyn a chymryd camau i atal a lliniaru hynny, ac yna rhoi cymorth i blant sy'n cydnabod y trawma y maent wedi'i brofi.

Mae angen i ni leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, lliniaru eu heffeithiau a deall yr effaith y gall profiadau o'r fath ei chael ar y rhai sydd wedi profi VAWDASV, gan gynnwys y rhai sydd wedi cam-drin pobl eu hunain.

## Esboniwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant

Bydd Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ddrafft yn cefnogi llawer o'r erthyglau o fewn CCUHP. Bwriad y Strategaeth yw atal VAWDASV rhag digwydd a, lle mae'n digwydd, diogelu a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol, nid yn unig ar blant a phobl ifanc, ond ar bobl o bob oed.

Mae'r asesiad o'r effaith ar hawliau plant wedi nodi'r erthyglau canlynol fel y rhai y bydd y Strategaeth Genedlaethol ddrafft yn effeithio fwyaf arnynt:

**Erthygl 1 - Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn:**
Mae'r erthygl hon yn diffinio'r ystod oedran a gwmpesir gan CCUHP.

**Erthygl 2 - Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, crefydd, gallu, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono:**
Nid yw'r Strategaeth Genedlaethol yn gwahaniaethu ar sail hil, crefydd, gallu, beth bynnag y mae plant yn meddwl neu'n dweud na pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

**Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn:**
Mae Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gynhyrchu ac adrodd ar strategaethau lleol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd hyn yn sicrhau bod y sefydliadau dan sylw yn gweithio tuag at roi'r strategaethau hyn ar waith, gan gynorthwyo plant sy'n agored i unrhyw un o'r materion hyn o fewn eu teuluoedd. Disgwylir i'r strategaethau lleol hyn nodi'r Strategaeth Genedlaethol a dangos sut y byddant yn cyd-fynd ag amcanion y Strategaeth.

**Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu iach:**
Mae ymchwil yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng gweld trais yn y cartref a'r siawns o fyw gyda thrais yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae cysylltiad cryf rhwng amlygiad plant i drais domestig a phroblemau emosiynol ac ymddygiadol, yn ogystal â pherthnasoedd gwael gyda chyfoedion, cyrhaeddiad academaidd isel ac ymddygiadau iechyd peryglus. Mae tystiolaeth o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dangos y gall pobl ifanc hefyd ddioddef trais yn y cartref.

Nod y Strategaeth ddrafft yw cyfrannu at wella trefniadau ar gyfer atal cam-drin domestig, trais ar sail rhyw ac ymosodiadau rhywiol, a diogelu a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr yn well. Drwy ymdrechu tuag at hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn well rhag effeithiau andwyol trais a cham-drin.

Bydd y Strategaeth ddrafft yn ategu'r gweithdrefnau diogelu presennol.

**Erthygl 9 – Ni ddylai plant gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni oni bai ei fod er eu diogelwch eu hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu yr hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni bai y gallai hyn frifo'r plentyn:**
Yn hyn o beth, bydd camau gweithredu o ganlyniad i'r Strategaeth ddrafft yn ategu gweithdrefnau diogelu a CAFCASS presennol.

**Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried:**
Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i dargedu gweithgarwch ymgysylltu penodol at blant a phobl ifanc yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft.

Wrth gomisiynu gwasanaethau VAWDASV ar gyfer plant a phobl ifanc, bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau ystyried eu hanghenion penodol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**Erthygl 19 – Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl:**
Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft yn ceisio ategu'r gyfraith droseddol bresennol drwy ganolbwyntio ar y materion cymdeithasol o fewn elfennau atal, amddiffyn a chefnogi. Nod y cynigion yw atal gweithredoedd o'r fath rhag digwydd yn y lle cyntaf, a chefnogi ac amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr pan fydd yn digwydd.

Mae'r Strategaeth ddrafft yn cydnabod yr effaith niweidiol y gall cam-drin domestig a gweld cam-drin o'r fath ei chael ar ddatblygiad plentyn a'i fywyd diweddarach. O'r herwydd, mae'r Strategaeth ddrafft yn hyrwyddo ymyrraeth a chefnogaeth gynharach gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

**Mae Erthygl 27 yn datgan bod gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i fodloni eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn:**
Mae VAWDASV a gweld trais o'r fath fel plentyn yn cael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn ac mewn rhai achosion mae'n effeithio ar ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd. Gallai hynny olygu nad yw safon byw y plant hyn yn ddigon uchel i fodloni eu hanghenion corfforol a meddyliol. Bydd atal cam-drin domestig, trais ar sail rhyw a thrais rhywiol rhag digwydd, yn enwedig mewn teuluoedd, ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr pan fydd hyn yn digwydd, yn sicrhau y bydd plant yn cael eu cefnogi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod eu hanghenion meddyliol yn cael eu diwallu.

**Erthygl 34 – Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol:**
Nod y Strategaeth Genedlaethol ddrafft yw atal VAWDASV ac felly bydd yn helpu i amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol ar y cyd â'r gweithdrefnau diogelu presennol.

**Erthygl 39 - Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch:**
Bydd cefnogaeth yn cael ei darparu i holl ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae plant o dan 18 oed eisoes yn dod o dan ddeddfwriaeth arall, a all arwain at ymateb integredig gwell i blant sy'n dioddef VAWDASV.